# Y CYNGOR 07/12/23

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd R.Medwyn Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Beca Roberts (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:-** Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Glyn Daniels, Anwen J Davies, Dafydd Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, Kim Jones, June Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Gareth Coj Parry, Nigel Pickavance, John Pughe, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Elfed P Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rob Triggs, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams a Sasha Williams.

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Dylan Owen a Geraint Owen (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth), Carys Fon Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol Addysg), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Hefyd yn Bresennol:** Dyfed Edwards a Carys Norgain (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) (eitem 6).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Stephen Churchman, Annwen Hughes, Linda Ann Jones, Eryl Jones-Williams ac Einir Wyn Williams.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 28 Medi, 2023 fel rhai cywir.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

'Roedd yr aelodau wedi derbyn nodyn briffio ymlaen llaw gan y Swyddog Monitro ynglŷn ag eitem 8 – Hawl Disgresiwn i Ganiatáu Disgowntiau a / neu Godi Premiwm 2024/25 ac eitem 9 - Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor 2024/25.

(1) Datganodd y Cynghorydd Rheinallt Puw fuddiant personol yn eitem 6 ar y rhaglen – Cyflwyniad gan Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oherwydd ei fod yn gweithio i'r Bwrdd Iechyd.

Nid oedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

(2) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 8 ar y rhaglen - Hawl Disgresiwn i Ganiatáu Disgowntiau a / neu Godi Premiwm 2024/25 am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Dewi Jones oherwydd bod aelod o'r teulu wedi etifeddu cartref sy'n parhau yn eu meddiant, ac yn talu'r premiwm.
- Y Cynghorydd Cai Larsen oherwydd ei fod wedi etifeddu tŷ sydd heb ei werthu eto, ac yn wag.
- Y Cynghorydd Huw Rowlands oherwydd bod gan aelod agos o'r teulu dŷ sy'n disgyn i mewn i un o'r categorïau.
- Y Cynghorydd Gareth A. Roberts oherwydd bod ganddo dŷ gwag heb unrhyw Dreth Cyngor yn daladwy arno am 6 mis.
- Y Cynghorydd Menna Baines oherwydd bod aelod agos o'r teulu yn dod i mewn i un o'r categorïau.

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

(3) Datganodd y Cynghorydd Gareth A.Roberts fuddiant personol yn eitem 9 ar y rhaglen – Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor 2024/25 oherwydd bod aelod agos o'r teulu wedi derbyn disgownt Treth Cyngor.

Nid oedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

- Teulu'r Cynghorydd Eirwyn Williams Cricieth, a rhoddwyd teyrnged iddo gan y Cynghorydd Angela Russell.
- Teulu Carey Cartwright, Rheolwr Dysgu a Datblygu, a rhoddwyd teyrnged iddo gan Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol.
- Teuluoedd y pedwar bachgen ifanc o ardal Amwythig fu farw mewn damwain drasig ger Llanfrothen yn ddiweddar.

Nodwyd ymhellach bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Nodwyd bod sawl aelod o'r Cyngor wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar a dymunwyd iddynt adferiad llwyr a buan.

Llongyfarchwyd:-

- Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Meirionnydd ar ddod yn drydydd yn Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Cymru a gynhaliwyd ym Môn y mis diwethaf, ac hefyd ar fod yn fuddugol yng Nghystadleuaeth y Côr.
- Y Tîm o Adran Priffyrdd ac Ymgynghoriaeth Gwynedd sydd wedi ennill gwobr yr NCE yn Llundain am ddefnyddio technoleg i reoli asedau, sef cynllun Gwarchod Llifogydd y Felinheli, a braf oedd nodi i'r gystadleuaeth fod yn erbyn cwmnïau mawr Prydain gyfan.

Croesawyd y newydd fod y gwaith helaeth, dros gyfnod o bedair blynedd, o adfer Traphont Abermaw wedi'i gwblhau, a nodwyd bod hyn yn fuddsoddiad ac yn newyddion gwych i Reilffordd y Cambrian.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. CYFLWYNIAD GAN GADEIRYDD BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR**

Croesawyd Dyfed Edwards, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ynghyd â Carys Norgain, i'r cyfarfod i roi cyflwyniad i'r aelodau ar brif flaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer gwella gwasanaethau i drigolion Gwynedd.

Cyfeiriodd Cadeirydd y Bwrdd Iechyd at bapur a anfonwyd ar yr holl aelodau yn amlinellu gwaith y Bwrdd, yr heriau a'r cynnydd sydd wedi bod, gan nodi:-

- Fel Cadeirydd newydd y Bwrdd Iechyd, y bu iddo ef a'r aelodau annibynnol newydd eraill ganfod sefydliad oedd yn ansefydlog, gyda llawer iawn o heriau o gwmpas llywodraethiant, cyllid ac ansawdd rhai o'r gwasanaethau.
- Y bu iddynt hefyd, ar yr un pryd, ganfod bod yna nifer fawr o bobl yn gweithio yn y Bwrdd Iechyd yn gwneud gwaith rhagorol. Gan hynny, y cam cyntaf, wrth adlewyrchu ar y sefyllfa, oedd ceisio creu sefydlogrwydd drwy ymgymryd â chamau i fod yn weledol.
- Y credai ei bod yn deg dweud hefyd bod yna faterion yn ymwneud â diwylliant y Bwrdd Iechyd a dyma un o'r pethau yr oedd ef yn bersonol yn dymuno ceisio mynd i'r afael ag o, er nad oedd hynny'n mynd i ddigwydd dros nos.
- Bod gan y Bwrdd raglen waith benodol, yn gweithio gyda phobl fel Michael West yn y maes arweinyddiaeth drugarog, ac yn awyddus iawn i greu cyd-destun lle mae pobl yn gallu llwyddo yn eu gwaith a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn rhan o dîm ehangach sy'n gallu darparu gwasanaeth iechyd a lles gorau bosib'.
- Bod y Bwrdd wedi gwneud nifer o benodiadau allweddol yn rhai parhaol yn ddiweddar, sef swyddi fydd yn creu sefydlogrwydd yn y Bwrdd Iechyd a thu hwnt.
- Bod y sefyllfa fel creu Bwrdd Iechyd o'r newydd bron, ac roedd yn bwysig cyflawni gofynion rhaglen o fesurau arbennig Llywodraeth Cymru, gan hefyd fynd i'r afael â materion eraill a chreu llwyddiant sy'n mynd i fod yn gynaliadwy.
- Y gobeithid, felly, bod yna ddarlun i'r dyfodol o Fwrdd Iechyd sy'n mynd i fod yn uchelgeisiol, ond yn realistig ac yn deall yr heriau.
- Mai'r her fwyaf yw mynediad i'r gwasanaethau ac roedd angen eglurdeb ynglŷn â'r ffordd ymlaen a beth yw'r disgwyliadau, yn arbennig disgwyliadau o gwmpas safonau.
- Bod perygl mewn sefyllfa o fesurau arbennig i fynd yn amddiffynnol iawn, ond y ceisid gwneud i'r gwrthwyneb, a dyna un o'r rhesymau pam ei fod yn falch o'r cyfle hwn i annerch y Cyngor ac i fod yn agored ac yn dryloyw ynglŷn â'r heriau a wynebir.
- Bod gan bartneriaid, fel cynghorau, rôl bwysig iawn i'w chwarae gyda'r Bwrdd Iechyd ar y siwrne yma, gan nad yw iechyd a lles yn perthyn i'r Bwrdd Iechyd yn unig. Credid bod cyfle i wneud mwy gyda'r partneriaid yma i gyflawni'r hyn sydd ei angen i sicrhau bod pobl Gwynedd a phobl y Gogledd yn derbyn y gwasanaethau gorau bosib'.
- Y byddai'r Bwrdd Iechyd yn hapus i ddod yn ôl gerbron y Cyngor, neu unrhyw fforwm o ddewis yr aelodau, er mwyn darparu mwy o fanylion ynglŷn â rhai o'r gwasanaethau a'r heriau ac i sicrhau cydweithio agosach rhwng y ddau gorff.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau i Gadeirydd y Bwrdd Iechyd.

Holwyd beth oedd y cynlluniau i ddenu mwy o feddygon teulu i ardal Dolgellau, Tywyn a Bermo, gan bod yna ddiffyg difrifol a pheryglus yn yr ardaloedd yma. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod patrwm bywyd wedi newid i lawer, ac yn sgil y pandemig, bod nifer o bobl, gan gynnwys rhai meddygon teulu, wedi ail asesu eu bywydau ac yn awyddus i wneud rhywbeth gwahanol neu'n chwilio am brofiadau ehangach na'r hyn oedd ganddynt flynyddoedd yn ôl. Yn hynny o beth, ceisid cydweithio i weld pa brofiadau ehangach y gellid eu cynnig i feddygon teulu o ran datblygiad proffesiynol a chyfle i weithio yn ehangach y tu hwnt i'r practis.
- O ran yr ardaloedd penodol, edrychid am ffyrdd newydd o farchnata. Yn ogystal â defnyddio cylchgronau proffesiynol fel y British Medical Journal, defnyddid fideos sy'n ceisio dangos pa mor wych yw rhai o'r ardaloedd hyn yn ogystal â chymhellion i bobl ad-leoli pe dymunent.
- Y tu hwnt i hynny, ac yn yr hirdymor, bod angen gwella delwedd y swydd drwy sicrhau gwell amodau gwaith i feddygon teulu a gwneud y swydd yn un mae pobl ifanc yn ei gweld fel gyrfa. Yn hyn o beth, gobeithid y byddai'r Ysgol Feddygol newydd ym Mangor yn ffordd o hyrwyddo'r cynnig gwledig ac o gadw ein pobl ifanc yma.
- Fel rhan o'r cynlluniau i recriwtio mwy o staff yn Nhywyn, y gobeithid cael therapyddion a nyrsys yn gweithio i lefel uwch er mwyn cymryd rhywfaint o'r baich oddi ar y meddyg teulu.

Holwyd a fwriedid ymestyn y cynllun 'Tuag Adref' sydd wedi bod yn gweithredu yn Nhywyn ers i'r gwlâu yn yr ysbyty gael eu cau dros dro tra'n disgwyl am staff ychwanegol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y cynllun 'Tuag Adref' yn ddatblygiad llwyddiannus iawn ac yn weithredol yn Ysbytai Eryri, Alltwen a Thywyn.
- Bod y cynllun yn cael ei noddi drwy'r Gronfa Integredig Ranbarthol ac yn darparu cymorth i gleifion sydd angen ychydig o gefnogaeth i fyw'n annibynnol ar ôl gadael yr ysbyty.
- Bod tystiolaeth bod y cynllun yn cynorthwyo pobl i wneud y cam o'r ysbyty yn ôl adref yn gynt, a bod hynny'n rhyddhau gwelyau yn yr ysbytai ac yn rhyddhau gwasanaethau.
- Y bwriedid parhau i ddatblygu'r gwasanaeth ar draws yr ardaloedd hyn, gan gynnwys Ardal Tywyn ac Ardal Bro Dysynni.

Holwyd, gan fod Llywodraeth Cymru yn pwyso am ganolfannau / clinigau iechyd ledled Cymru i leihau'r ddibyniaeth ar ysbytai damweiniau ac achosion brys, a oes perygl y gellid trosi ysbytai cymunedol fel Ysbyty Cymunedol Dolgellau a'r Bermo yn ganolfan clinig iechyd gyda cholli gwelyau cleifion mewnol mewn ysbytai. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Mai'r cwestiwn allweddol yw beth yw'r gwasanaethau a beth yw'r amrywiaeth o wasanaethau sydd eu hangen yn yr ardaloedd i sicrhau bod pobl yn cael y gorau o'r gwasanaethau iechyd a lles. Mewn rhai achosion byddai hynny'n cynnwys gwelyau mewn ysbytai, ac mewn achosion eraill, efallai na fyddai yn cynnwys hynny ac roedd angen bod â meddwl agored ynglŷn â beth fydd dyfodol y ddarpariaeth ymhob ardal o Wynedd.
- Y credid bod angen ysbytai lleol er mwyn sicrhau bod gan bobl sydd angen gofal ychwanegol rywle i fynd o'r prif ysbytai, ond roedd modd datblygu'r gwasanaethau yn yr ysbytai cymunedol i fod yn rhywbeth ehangach na hynny hefyd, ac roedd ysbytai megis Alltwen ac Eryri yn enghreifftiau ardderchog o hyn.

- Y bydd angen gwelyau mewn nifer o achosion o hyd, ond y nod bob amser yw ceisio sicrhau bod pobl yn cael cyfle i fynd adref.
- Nad oedd yn bosib' bob amser i bobl fynd adref a byw'n hollol annibynnol a dyna pam bod cynlluniau fel 'Tuag Adref' yn bodoli, ond byddai dyfodol i ganolfannau yn lleol, waeth beth fyddai'r ddarpariaeth.

Holwyd a ddylai'r Prif Weinidog, Mark Drakeford, ymddiheuro i drigolion Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am beidio â bwrw ymlaen â chanolfan hyfforddi feddygol ym Mangor dros 10 mlynedd yn ôl pan gefnogodd y Gweinidog Iechyd ar y pryd, Edwina Hart y prosiect.  Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod amgylchiadau'n dod ynghyd weithiau sy'n golygu ei bod yn bosib' i rywbeth ddigwydd.  Credid mai dyna oedd wedi digwydd yn hanes yr Ysgol Feddygol a'r Brifysgol, gyda pheth o'r amgylchiadau yn wleidyddol, peth o'r amgylchiadau yn newid personél yn y Brifysgol a pheth o'r amgylchiadau yn ymwneud ag uchelgais y Bwrdd Iechyd ac uchelgais y Brifysgol i symud rhywfaint o'r meddylfryd i weld cyfle i dyfu gweithlu yma yn lleol.
- Y dymunid diolch i'r Prif Weinidog a Llywodraeth Cymru am sicrhau bod gennym Ysgol Feddygol yn y Gogledd bellach, gan hefyd ddiolch i bawb fu'n ymdrechu dros gyfnod i sicrhau hyn.
- Nad oedd y pethau hyn yn aml yn gallu digwydd i'r amserlen y byddem yn dymuno, ond efallai mai'r wers yw bod rhaid dyfalbarhau, ac yn yr achos yma roedd llwyddiant wedi dod.
- Y byddwn yn cadw golwg ar yr Ysgol Feddygol fel y gallwn sicrhau ein bod yn cael gweithlu yn y gwasanaethau iechyd a lles yma yn y Gogledd.

Holwyd pryd mae'r cyhoedd yn mynd i gael gweld adroddiad Ernst and Young a chael gwybod i ble'r aeth yr £122m sydd wedi mynd ar goll yn y Bwrdd Iechyd.  Holwyd hefyd pam bod y Bwrdd Iechyd wedi talu £400,000 i'r Pennaeth Adran Nyrsio a Bydwreigiaeth Dros Dro am 4 mis o waith.  Mewn ymateb, nodwyd:-

- Yn hanesyddol, bod sefyllfa ariannol byrddau iechyd yng Nghymru wedi bod yn wahanol i lywodraeth leol, a bod angen i fyrddau iechyd ddysgu rhywfaint o'r ddisgyblaeth ariannol sydd wedi bod gan lywodraeth leol.
- Ei fod, fel Cadeirydd y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r Brif Weithredwraig, wedi dweud ar sawl achlysur eu bod yn awyddus i gyhoeddi adroddiad Ernst and Young, ond nad oedd modd gwneud hynny ar hyn o bryd gan fod rhai pobl yn mynd trwy broses, a byddai cyhoeddi'r adroddiad ar hyn o bryd yn tanseilio'r broses honno.
- Bod y materion eraill yn ymwneud ag arian yn rhan o'r ymchwiliad, ond y dymunai bwysleisio nad oedd £122m wedi mynd ar goll yn y Bwrdd Iechyd.

Gofynnwyd am sicrwydd y bydd sylw brys yn cael ei roi i'r argyfwng yn y Gwasanaeth Ambiwlans, nid yn unig yr amser aros am ambiwlans, ond hefyd yr amseroedd aros y tu allan i'r ysbytai.  Mewn ymateb, nodwyd:-

- Mai Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, yn hytrach na'r Bwrdd Iechyd, sy'n gyfrifol am yr amseroedd aros am ambiwlans, ond bod y Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am yr arhosiad y tu allan i'r ysbytai.
- Bod yr holl wasanaeth ambiwlans dan bwysau aruthrol, a diau fod ganddynt ystadegau y gellid eu rhannu â'r aelodau ynglŷn â'r defnydd o'r gwasanaeth yng Ngwynedd.
- O ran arhosiad y tu allan i'r ysbytai, bod gan y Llywodraeth darged na ddylai neb aros mwy na 4 awr mewn ambiwlans nes cael mynediad i'r ysbyty, ac er bod y Gwasanaeth Iechyd yn gweithio'n galed i gyrraedd y nod, nid oedd hynny'n bosib' bob amser, a hynny'n aml iawn oherwydd diffyg gwelyau.

- Os am wella'r sefyllfa, byddai'n rhaid gwneud rhywbeth ynglŷn â'r ffordd mae pobl, nid yn unig yn cael mynediad i'r ysbyty, ond hefyd yn gadael yr ysbyty ac yn rhyddhau'r gwelyau.

Diolchwyd i gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd am y cyflwyniad a'u hymatebion i'r cwestiynau.

**7. CWESTIYNAU**

*(Cyhoeddwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau ymlaen llaw.)*

**(1) Cwestiwn Y Cynghorydd Rhys Tudur**

O ystyried bod Ymchwil Tai Newydd a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn 2021 wedi profi bod asesiadau ieithyddol ar geisiadau cynllunio yn anwireddau wrth amlygu fod canran uchel o dai wedi mynd yn aelwyddydd di-Gymraeg mewn ardal sy'n gadarnleoedd traddodiadol i'r iaith, 68% ym Mhen Llŷn a 41% ym Mhenllyn, onid yw'n amser bellach i ail wneud y drefn wallus sydd gennym ar gyfer asesiadau ieithyddol fel na fyddai'r asesydd ieithyddol yn gweithredu ar ran ac er budd datblygwr ond yn hytrach yn cael ei gyfarwyddo gan y Cyngor a bod y datblygwr yn talu comisiwn tuag at y gwasanaeth?

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

Yn 2019 y comisiynwyd y gwaith yma ac fe wnaed hynny oherwydd bod yna ddiffyg gwybodaeth ddibynadwy ar gael am ba grwpiau o bobl sy'n tueddu i symud i dai newydd yng Ngwynedd, o lle mae'r bobl yma'n symud a pham eu bod yn dewis symud i dŷ newydd. Fel y nodir yn yr ateb ysgrifenedig, prif gasgliadau'r gwaith ymchwil oedd:-

- Bod dros 70% o breswylwyr tai newydd wedi symud yno o dŷ arall yng Ngwynedd.
- Bod proffil oedran pobl sy'n symud i dai newydd yn eithaf 'ifanc' gyda dros 70% o drigolion tai newydd dan 45 oed.
- Bod 69% o breswylwyr tai newydd yn gallu siarad Cymraeg sydd yn debyg iawn i'r canran o siaradwyr Cymraeg ar draws Gwynedd yn gyffredinol.

Yng nghwestiwn yr aelod, mae'n nodi bod y canrannau ym Mhen Llŷn a Phenllyn yn is na'r nifer sy'n siarad Cymraeg yn yr ardaloedd hynny, ond mae angen pwysleisio bod 7 allan o'r 10 ardal oedd yn destun y gwaith ymchwil yn dangos canrannau uwch fel y gwelwch yn y graff yn yr ateb ysgrifenedig. Er enghraifft, roedd canran y siaradwyr Cymraeg oedd wedi symud i mewn i dai newydd yn ardal Porthmadog yn 78%, sy'n cymharu â 67%, sef y ganran o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal. Yn Arfon, er enghraifft, roedd yn 91% o gymharu ag 81%, ac yn ddifyr iawn, ym Mangor roedd yn 59% o gymharu â 42%, sef y ganran sy'n siarad Cymraeg ym Mangor, ac mae hynny'n bennaf oherwydd stad o dai newydd, Goetre Uchaf, ym Mhenrhosgarnedd. Ac yn nes at adre i mi, roedd yn 86% yn Nyffryn Ogwen o gymharu â 73% yn gyffredinol.

Fel rhan o'r ymchwil, roedd yna ddilyn y gadwyn hefyd o ran pwy oedd wedi symud i mewn i'r tai wrth i bobl eraill symud allan, ac mae'r ystadegau'n dangos bod y ffigurau'n eithaf tebyg o ddilyn y gadwyn.

Pwynt pwysig ydi bod yr ymchwil yn cynnwys pob tŷ newydd a gwblhawyd yng Ngwynedd rhwng 2015 a 2017, ond roedd yna rai tai ychwanegol oedd yn mynd yn ôl i 2012 mewn rhai ardaloedd er mwyn gwneud yn siŵr bod y samplau yn ddigon mawr.

Wrth gwrs, mae'r datblygiadau tai yma wedi'u penderfynu o dan yr hen Gynllun Datblygu Unedol a gafodd ei ddisodli yn 2017, ac ers hynny, wrth gwrs, y prif sail polisi ar gyfer datblygiadau ydi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, ac mae Canllaw Cynllunio Atodol wedi'i fabwysiadu sy'n rhoi cig ar asgwrn y polisi cynllunio presennol.

Mae'r drefn bresennol yn fwy gwydn o ran y Gymraeg a hefyd yn mynd yn llawer pellach na'r gofynion o fewn Nodyn Cyngor Technegol 20 (TAN 20) Llywodraeth Cymru. Mae sawl enghraifft o geisiadau cynllunio dan bolisïau presennol sydd wedi cael eu gwrthod am resymau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Ond fel mae'r aelodau yn gwybod, mae'n siŵr, mae'r Cyngor wedi penderfynu gwneud adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, sydd i bob pwrpas yn golygu paratoi cynllun newydd. Mae'r broses wedi cychwyn a bydd hyn yn gyfle i ni ail-edrych ar y polisïau a sut mae rhoi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg wrth ddelio hefo ceisiadau cynllunio.

Mae'r aelod a minnau yn rhan o'r Gweithgor Polisi Cynllunio sy'n arwain ar y gwaith yma, ac fel mae'n digwydd bod, bydd sesiwn pwysig o'r gweithgor yn cael ei gynnal wythnos nesaf lle fyddwn ni'n gosod cyfeiriad a gweledigaeth i'r polisi newydd.

O ran pwy ddylai gynnal y gwaith o wneud asesiad ieithyddol gyda cheisiadau cynllunio, rôl y Cyngor yn y fan yma ydi asesu ceisiadau cynllunio ac yna eu penderfynu yn seiliedig ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, ac unrhyw ystyriaethau cynllunio eraill. Nid rôl y Cyngor ydi paratoi asesiadau ar ran yr ymgeisydd, boed hynny'n asesiad iaith, asesiad trafnidiaeth, ecolegol neu unrhyw asesiad neu adroddiad arall sydd angen ei gyflwyno fel rhan o'r cais. Wrth gwrs, mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn sicrhau bod yr holl wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno gan ymgeiswyr yn cael ei hasesu gan arbenigwyr y tu mewn a thu allan i'r Cyngor.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Rhys Tudur**

O ystyried yr ymchwil tai newydd a'r Cyfrifiad, oes parodrwydd gan y Cabinet i hwyluso'r ffordd i roi amod medr iaith ar dai newydd, neu hyd yn oed ar ganran o dai newydd sy'n cael eu hadeiladu?

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

Wrth gwrs, mae yna awydd i wneud bob dim fedrwn ni o ran gwneud yn siŵr bod y tai yn mynd i bobl leol. Wrth gwrs, mae ein dwylo wedi eu clymu i raddau. Gallaf esbonio hynny drwy gyfeirio at Baragraff 3.28 o Bolisi Cynllunio Cymru, achos mae rhywun yn gorfod ystyried hyn fel rhan o unrhyw ystyriaeth gynllunio:-

*"Gall ystyriaethau yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg gael sylw gan benderfynwyr cyn belled â'u bod yn berthnasol i geisiadau am ganiatâd cynllunio. Ni ddylai polisïau a phenderfyniadau gyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion yn seiliedig ar eu gallu ieithyddol ac ni ddylent geisio rheoli daliadaeth tai ar sail ieithyddol"*

Felly ni ellid cyflwyno amod cynllunio yn cyfeirio at allu ieithyddol pobl. Wrth gwrs, y tu allan i hynny, mae'n bosib' defnyddio polisïau eraill i gyrraedd y nod, ac mae hynny'n rhan o'r drafodaeth wrth symud ymlaen ac wrth i ni ddatblygu polisi cynllunio newydd. Rwy'n siŵr y cawn ni drafodaeth gyda'n gilydd a gyda gweddill aelodau'r Gweithgor wrth fwrw'r maen yna i'r wal.

**(3) Cwestiwn Y Cynghorydd John Brynmor Hughes**

Hoffwn gael gwybod paham mae'n cymryd gymaint o amser i gael tenantiaid i mewn i gartrefi cymdeithasol yr ardal. Yr esiamplau sydd gennyf ydi bod eiddo ar Ffordd yr Ala, Pwllheli wedi ei droi yn ddau flat ac maent yn wag ers amser maith, yn ogystal â

dau dŷ ar Ffordd Abererch. Pe byddai'r eiddo yma yn y sector preifat byddai treth yn dod i'r Cyngor ac o bosib premiwm treth hefyd.

**Ateb – Aelod Cabinet Tai, Y Cynghorydd Craig ab Iago**

Cwestiwn amserol iawn. Mae sawl cynghorydd wedi codi'r pwnc yma yn ddiweddar, rhai eisiau gwybod pam nad ydym ni wedi prynu mil o dai, rhai yn poeni am yr amser mae'n cymryd i'w prynu ac eraill ddim yn deall y cynllun mewn gwirionedd, sydd yn fy marn i, yn beth positif. Mae'n dangos ein bod ni fel Adran yn llwyddo i gael y neges allan. Mae llawer o gynghorwyr yn ymwybodol o'r cynllun yma ac rwy'n deall eu bod yn ei weld fel rhywbeth arloesol a chyffrous, ac yn dymuno i ni wneud mwy ohono fo. Rydw i'n croesawu hynny fel Aelod Cabinet Tai, ond ar y llaw arall, efallai bod o'n dangos diffyg cyfathrebu ar ran yr Adran.

Rydym ni'n gwneud ein gorau i gyfathrebu ar y pwnc 'Tai'. Rydw i yn y wasg bob munud yn sôn am y pwnc. Rydw i wedi cynnal fforymau tai gyda phob grŵp yn y Cyngor i drafod y pwnc. Wrth gwrs, rydym ni'n anfon e-byst i gynghorwyr yn aml iawn, ond yn bwysicach na hynny, mae gennym ni'r Fewnrwyd Aelodau, ac rydw i'n awyddus i ddefnyddio'r cyfle yma i wneud yn siŵr bod pawb wedi clywed am y Fewnrwyd Aelodau a'r ffaith ein bod ni fel Adran Tai yn rhoi llawer o wybodaeth ar y deilsen 'Tai' ar y safle. Os ydych chi'n mynd i mewn iddo fe welwch eich bod yn gallu mynd i lawr i'ch ward a gweld be sy'n digwydd yno. Rydym ni'n parhau i'w ddatblygu, ond gallwch weld ar hyn o bryd os oes rhywun wedi prynu tŷ yn eich ward. Yn amlwg nid ydym yn llwyddo'n gyfan gwbl o ran cyfathrebu, ond rydym ni'n gweithio arno fo ac yn awyddus iawn i wneud mwy o ran hynny.

I fynd yn ôl at y cwestiwn, pwrpas y cynllun Prynu i Osod ydi prynu tai ar y farchnad agored a'u rhentu i bobl leol canolraddol, ac nid 'cymdeithasol' fel mae'r cwestiwn yn gyfeirio ato, sef pobl sydd ddim yn cael bod ar y gofrestr tai oherwydd nad ydyn nhw'n ticio'r bocsys iawn, ond sydd ddim yn gallu fforddio rhentu ar y farchnad agored chwaith. Rydym ni'n trio llenwi'r bwlch yna. Hyd yn hyn rydym ni wedi llwyddo i brynu 23 o dai yna ac rydym wedi gwario £4m ar eu prynu a £1m ar eu hatgyweirio, ac mae nhw'n llwyddiant llwyr yn fy marn. Rydym ni ar drac i gyrraedd ein targed o 100 o dai erbyn diwedd y cynllun yma, felly rydw i'n hapus iawn. Rydym ni'n trafod hyn yn aml iawn ac rydw i'n hapus iawn hefo lle rydym ni wedi cyrraedd. Rydym ni hyd yn oed wedi penodi swyddog penodol i reoli'r cynllun yma. Fel rwy'n ei weld o, mae dwy ran i'r broses yma. Un ydi prynu'r tai. Rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod ni'n prynu'r tai yn y llefydd iawn sy'n cwrdd ag angen lleol. Rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn prynu tai sydd ddim yn mynd i gostio gormod i'w hatgyweirio a hefyd rhaid i ni sicrhau nad ydym yn cystadlu yn erbyn pobl lleol, sy'n anodd iawn. O'r hyn rwy'n ddeall, mae pob tŷ wedi cymryd 4 mis i'w brynu, sydd efallai fis yn fwy na fyddai'n gymryd i drigolyn lleol brynu tŷ. Yn ddiweddar fe ofynnais i'r Adran ddarparu rhyw fath o siart llif fel bod y cynghorwyr yn gallu deall yn union beth ydi'r broses a'r holl gamau mae'r Adran yn gorfod ddilyn er mwyn prynu tŷ. Os nad ydych wedi ei dderbyn yn y ddau ddiwrnod diwethaf, byddwch yn ei dderbyn yn fuan iawn.

Mae yna sawl cam yn y broses ar ôl prynu tŷ. Un ydi mynd drwy broses dendro er mwyn dod o hyd i bobl i wneud y gwaith ar y tai, sef rhywbeth nad ydi trigolion yn gorfod gwneud. Mae yna faterion na ragwelwyd yn codi gyda phob tŷ rydym yn ei brynu, rhai fwy nag eraill, ond rwy'n hapus gyda'r cynnydd. Yn amlwg rydym ni'n trafod hyn yn y cyfarfodydd herio perfformiad ac rwy'n hapus gyda lle rydym arni gyda phob dim. Mae'r ddau eiddo dan sylw yn y cwestiwn wedi mynd drwy'r prosesau yna a deallaf y bydd pobl yn symud i mewn iddyn nhw yn fuan yn y Flwyddyn Newydd.

Hoffwn sicrhau pawb yma ein bod yn mynd mor sydyn â phosib'. Ni allaf weld sut y byddai'n bosib' i ni fynd yn gyflymach nag ydym yn mynd ar hyn o bryd.

Mae brawddeg olaf y cwestiwn yn nodi pe byddai'r eiddo yma yn y sector preifat y byddai treth yn dod i'r Cyngor, ac o bosib' premiwm treth hefyd, ond wrth gwrs, mae'r Cyngor yn talu Treth Cyngor ar y tai yma fel unrhyw drigolyn, a phetai'r tai yma yn talu premiwm treth byddai hynny'n golygu eu bod yn nwylo pobl sydd ddim yn byw yn yr ardal, neu ddim yn byw yn y tai yma. Credaf ein bod wedi bod yn glir iawn fel Cyngor mai ein gwaith ni yw cartrefu pobl lleol yn ein cymunedau yn hytrach nag ennill ein cymorth premiwm treth.

**(3) Cwestiwn Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams**

A ddylai Cyngor Gwynedd fod yn gofyn i'r Prif Weinidog, Mark Drakeford am ymddiheuriad am beidio â bwrw ymlaen â Chanolfan Hyfforddi Feddygol ym Mangor yn dilyn Rhybudd o Gynnig gan y Cyngor hwn dros 10 mlynedd yn ôl, pan oedd gan y prosiect gefnogaeth y Gweinidog Iechyd ar y pryd, Edwina Hart AC.

Pe bai Mark Drakeford heb stopio'r prosiect, ni fyddai Gwynedd yn y sefyllfa y mae ynddi heddiw o fod yn brin o ddoctoriaid a nyrsys, sy'n cael effaith negyddol ar drigolion Gwynedd.

**Ateb – Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, Y Cynghorydd Dilwyn Morgan**

Credaf fod hwn yn gwestiwn pwysig iawn. Mae'n codi ymwybyddiaeth o rywbeth mae llawer un wedi bod yn ymladd amdano dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn sicr hoffwn ddiolch i'r Cynghorydd Eryl Jones-Williams, oherwydd mi wnaeth o roi cynnig gerbron y Siambr yma yn ôl ym Medi 2013 yn gofyn am ysgol feddygol yma yn y Gogledd. Chwarae teg iddo, mae o, ynghyd ag aelodau seneddol a'n haelodau yn Llywodraeth Cymru, wedi brwydro'n galed dros y blynyddoedd i sicrhau fod yr ysgol yma'n agor yn 2024.

Erbyn hyn, mae'n braf nodi fod yr Ysgol Feddygol yn cael ei hagor ym Mangor ac rwy'n siŵr y byddai holl Gynghorwyr Gwynedd am ddymuno'n dda iddi ac i'r myfyrwyr a'r darpar weithlu meddygol i gyd a fydd yn dechrau ar eu haddysg ym mis Medi'r flwyddyn nesaf. Yn wir, diolch yn benodol, fel roeddwn yn dweud, i'r Cynghorydd Jones-Williams, ymhlith eraill, am yr holl waith di-flino mae nhw wedi wneud dros y degawd diwethaf.

Mae gen i gydymdeimlad gyda'r teimlad o rwystredigaeth a deimlir yn y cwestiwn gan y Cynghorydd na chefnogwyd y datblygiad yma ddeng mlynedd yn ôl. Fel y dywed dihareb o Tsiena, "*yr amser gorau i blannu coeden oedd ugain mlynedd yn ôl, a'r ail amser gorau yw nawr".* Felly, er yn derbyn y rhwystredigaeth, rydw i'n falch bod y datblygiad yma yn digwydd.

Wrth gwrs, nid yw'r Cyngor yma mewn unrhyw fodd yn gyfrifol am y maes meddygol a mater i'r Gwasanaeth Iechyd, y Llywodraeth a'r Brifysgol yw'r datblygiad, er bod ei effaith yn bellgyrhaeddol i drigolion Gwynedd. Felly, ni welaf fod budd i'w gael i bobl Gwynedd mewn unrhyw ffordd o alw ar i'r Prif Weinidog ymddiheuro am ddiffyg gweithredu ddeng mlynedd yn ôl, ond rydw i yn gobeithio yn fawr iawn y bydd y budd i bobl Gwynedd o'r datblygiad i'r blynyddoedd sydd i ddod yn eang.

I ail-adrodd felly, pob dymuniad da i'r Ysgol Feddygol ym Mhrifysgol Bangor, a phob hwyl i'r myfyrwyr, a phetasai yna gwestiwn atodol, rwy'n meddwl mai dyma'r ateb fyddwn yn rhoi. Rwyf am ddweud hyn oherwydd mae'n codi ymwybyddiaeth o rywbeth sydd wedi bod yn digwydd, ac efallai nad ydi pobl yn llawn sylweddoli. Mae myfyrwyr eisoes wedi cael eu lleoli ym Mhrifysgol Bangor yn cael eu hyfforddi i fod yn

feddygon a gweithwyr sydd â phwyslais ar feddyginiaeth wledig a chymunedol, ac mae'n braf nodi bod yna 17 o fyfyrwyr eisoes wedi graddio o Brifysgol Bangor. Felly mae'r gwaith wedi bod yn mynd yn ei flaen, ac rydym ni'n ddiolchgar am hynny. Diolch unwaith eto i'r Cynghorydd am ei waith diflino ar y mater yma.

**(4) Cwestiwn Y Cynghorydd Huw Rowlands**

Pa effaith mae'r cyfyngiadau ar allyriadau ffosfforws yn nalgylchoedd afonydd yng Ngwynedd yn ei gael ar ddatblygiadau newydd, a pha drafodaethau sydd wedi bod gan Gyngor Gwynedd efo'r asiantaethau priodol er mwyn cael datrysiad?

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

Mae hwn yn fater sy'n amlwg wedi effeithio ar ddatblygiad stad tai yn y ward acw. Mae hon yn broblem eithaf cymhleth, felly rwy'n tynnu eich sylw at yr ateb ysgrifenedig sydd wedi'i ddarparu. Ymddiheuriadau bod o'n faith ac yn dechnegol, ond yn ei hanfod mae'n nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad yn 2021 yn dangos bod nifer uchel o afonydd sydd o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn methu bodloni'r targedau ansawdd dŵr diwygiedig ar gyfer ffosfforws. Er nad ydi'r ddwy afon sydd dan sylw yng Ngwynedd, sef y Gwyrfai a'r Glaslyn, yn methu'r targedau, fe all rhai datblygiadau newydd arwain at fwy o ffosfforws yn mynd i mewn i amgylchedd yr afon.

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor oddeutu 9 cais cynllunio sydd heb eu penderfynu oherwydd materion ffosffadau, sy'n cynnwys datblygiad o 16 tŷ fforddiadwy yn Dinas. O ran y Gwyrfai, mae astudiaethau wedi dangos bod tua 80% o'r ffosfforws yn deillio o waith trin Dŵr Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n cynnal adolygiad ar hyn o bryd o drwyddedau cwmnïau dŵr presennol yn erbyn y targedau ffosfforws diwygiedig ac mae ganddyn nhw darged yn ei le i gwblhau'r gwaith erbyn Gorffennaf 2024 ar draws Cymru. Hyd yn hyn nid oes yna unrhyw drwyddedau diwygiedig wedi'u cyhoeddi ar gyfer Gwynedd.

I ateb y cwestiwn, unwaith y bydd trwyddedau wedi'u hadolygu ac wedi'u cyhoeddi, fe all y Gwasanaeth Cynllunio gynnal trafodaeth gyda Dŵr Cymru ynghylch capasiti eu gwaith trin dŵr.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Huw Rowlands**

Pa bwysau all Cyngor Gwynedd felly ddwyn ar Dŵr Cymru er mwyn bod nhw'n uwchraddio eu gweithfeydd trin dŵr fel bod yna ddatrysiad wedyn i'r mater yma?

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

I raddau, mater rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru ydyw. Mae'r broblem yn waeth mewn cynghorau eraill, ond disgwylir y bydd yr adolygiadau yma wedi digwydd erbyn Gorffennaf 2024 rwy'n credu, ond yn sicr rydw i'n hapus iawn i sgwennu fel Aelod Cabinet at y ddau gorff i ofyn iddyn nhw brysuro hefo'r gwaith yn y gobaith y cawn ni symud ymlaen hefo ceisiadau cynllunio.

**(5) Cwestiwn Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

Mi fydd hi'n flwyddyn newydd gyda hyn. Pa mor ara' deg mae'r Cyngor hwn yn mynd i fod yn llunio polisi iaith newydd ar gyfer ysgolion y sir neu eu dynodi'n ysgolion 3P?

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Beca Brown**

Wnâi ddim amlhau geiriau wrth ateb achos mae hwn yn gwestiwn ar thema gyfarwydd i'r Siambr hon. Rydw i wedi nodi fy mwriad i ddiweddaru'r Polisi Iaith Addysg mewn sawl cyfarfod o'r Cyngor Llawn, ac mewn sawl cyfarfod Pwyllgor Craffu. Rydw i wedi mabwysiadu argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd, sydd yn cynnwys argymhelliad penodol ynglŷn â'r Polisi Iaith sy'n ymwneud a rhoi mwy o bwyslais ar y Gymraeg a'i wneud yn gliriach o ran yr hyn a olygir wrth "ddwyieithrwydd."

Nid wyf yn derbyn y sylw 'chydig yn bigog am arafwch y Cyngor wrth fynd ati i ddiweddaru'r Polisi Iaith. Mae fy ymrwymiad i yn glir. Mae gennym ni Bennaeth Addysg newydd yn ei le ers cwta wythnos, a llongyfarchiadau iddo fo ar ei benodiad, a bydd y gwaith o ddiweddaru'r Polisi Iaith Addysg wedi ei wneud erbyn diwedd y flwyddyn addysgol hon, a bydd yna gyfle i drafod cynnydd ar y gwaith yma yn y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn mis Mawrth.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

O ystyried bod yna eryrod yn y gorffennol, Dafydd Orwig, er enghraifft, wedi gweithredu hefo penderfyniad i ddiogelu'r Wynedd Gymraeg, ydi'r arafwch malwodaidd yma yn deilwng o enw'r Siambr rydym ni'n eistedd ynddi heddiw?

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Beca Brown**

Fel i mi nodi, nid ydw i'n derbyn y cyhuddiad o arafwch, ac i fynd yn ôl at y cwestiwn gwreiddiol, lle mae'r aelod yn sôn am y Flwyddyn Newydd, ac o ran ymrwymiad ac o ran penderfyniad, sef y geiriau a ddefnyddir gan yr aelod, mi fydd y flwyddyn nesaf yn un llawn cyfleon o ran y darnau o waith sydd o'n blaenau. Mae'r darnau o waith hynod bwysig yma yn mynd i fod yn gweithredu fel sail i ni am flynyddoedd i ddod, y Polisi Iaith, wrth gwrs, fel rydym ni wedi sôn amdano eisoes, a'r Strategaeth Addysg, sy'n ddarn o waith allweddol, a hefyd y gwaith hynod bwysig fydd yn digwydd i gefnogi taith ieithyddol ein hysgolion trosiannol ni. Rydw i'n edrych ymlaen yn arw at bob elfen o'r gwaith yma ond rwy'n teimlo cyffro arbennig am y gwaith fydd yn digwydd hefo'n ysgolion trosiannol ni, sef y rhai sydd ddim eto wedi cyrraedd yr hicyn o ran darpariaeth y Gymraeg, ac felly ddim yn gallu cael eu hadnabod ar hyn o bryd fel ysgolion categori 3, fel gweddill ysgolion y sir. Rwy'n credu bod ein cefnogaeth ni i'r ysgolion yma ar eu taith ieithyddol yn un o'r pethau pwysicaf wnawn ni yn y Cyngor yma o ran y bobl ifanc yn yr ysgolion hynny, ond hefyd o ran cryfder y Gymraeg yng Ngwynedd. Rwy'n meddwl mai dyma un o'r cymwynasau mwyaf wnawn ni hefo'n plant a hefo'n hiaith.

Mae natur bigog y cwestiwn yma yn awgrymu ein bod ni'n llusgo'n traed hefo'r Gymraeg ac nid wy'n meddwl bod yna ddim byd pellach o'r gwirionedd i fod yn onest. Hoffwn gyfeirio at un enghraifft o flaengaredd diweddar, sef ein bod ni wedi llwyddo i roi 5 o'n hysgolion ni ar beilot Llywodraeth Cymru gyda'r Cwmni Dysgu Cymraeg 'Say Something in Welsh', sy'n golygu eu bod nhw rŵan yn cael mantais o gwrs sydd wedi'i deilwra yn arbennig i bobl ifanc sydd ar eu taith ieithyddol. Mae 3 o'r 5 ysgol hynny yn rhai trosiannol a 2 ohonynt yn digwydd bod gyda cohort uwch na'r arfer o hwyrddyfodiaid, yn bennaf oherwydd gwaith eu rhieni. Gynt ysgolion cyfrwng Saesneg y De oedd ar y peilot yma, ond roeddwn i'n awyddus i rai o'n hysgolion ni gael budd y peilot yma sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac mae rhoi'r ysgolion ar y peilot yma yn golygu bod nhw hefyd rŵan yn gallu manteisio ar fuddion y cwrs sy'n adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes yn cael ei wneud. Mae hwn wedi dod fel cais gen i i'r Adran yn yr wythnosau diwethaf, ac mae fy niolch yn fawr i Bennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd am fynd ar ôl y peth gyda phenderfyniad ac yn syth bin, ac yn wir mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn yn ysgolion Friars, Tywyn a Glan y Môr, a bydd yn dechrau yn Ein Harglwyddes a Hirael yn fuan ar ôl y Nadolig.

Felly rydw i a'r Adran bob amser yn effro a bob amser yn chwilio am unrhyw gyfleoedd neu unrhyw adnoddau i helpu ein hysgolion ni a'n pobl ifanc ni i fod yn siaradwyr hyderus yn unol â'u haeddiant ac fel sydd yn ddymuniad gennym ni i gyd sydd am weld y Gymraeg yn ffynnu yn y sir yma.

**8. TRETH CYNGOR – HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A / NEU GODI PREMIWM 2024/25**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas, adroddiad yn gofyn i'r Cyngor am gadarnhad ffurfiol am 2024/25 o'r penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag, ac i godi Premiwm o 150% ar anheddau sydd wedi eu meddiannu yn achlysurol a Phremiwm o 100% ar anheddau gwag hirdymor.

Yna cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at y gwaith ymchwil a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn er mwyn mesur effaith y Premiwm ar wardiau a chymunedau unigol gan nodi:-

- Dros y misoedd diwethaf, y gwelwyd gostyngiad am y tro cyntaf yn nifer yr ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar.
- Nad oedd digon o ddata ar gael ar hyn o bryd i brofi bod hynny yn uniongyrchol o ganlyniad i'r Premiwm. Gan hynny, nid oedd tystiolaeth yn bodoli ar hyn o bryd fyddai'n cyfiawnhau gosod lefel wahanol ar gyfer y Premiwm yn 2024/25.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.

Mynegwyd pryder bod y lleihad yn nifer yr ail gartrefi a'r lleihad mewn twristiaeth yn sgil hynny yn arwain at gau busnesau, yn arbennig yn y trefi glan môr, a holwyd pa gymorth allai'r Cyngor ei gynnig i fusnesau lleol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y gallai'r Tim Ymchwil a Gwybodaeth, sy'n casglu gwybodaeth o nifer o wahanol sefydliadau ar ran y Cyngor, ddod â'r data sy'n cael ei dderbyn gan yr Adran Economi a Chymuned at ei gilydd i weld beth ydi'r effaith.
- Os yw nifer yr ail gartrefi yn gostwng, a phobl yn byw'n barhaol yn y tai hynny, y gobaith yw y bydd y bobl hynny'n cefnogi busnesau lleol gydol y flwyddyn.
- Y bydd y Cyngor yn edrych ar ganlyniad hynny dros gyfnod maith.

Cefnogwyd yr argymhelliad i barhau i godi Premiwm o 150% ar ail gartrefi ar y sail nad ydi'r bobl sy'n symud i mewn i bentrefi fel Abersoch yn deall ein hiaith na'n ffordd o fyw nac yn gwneud defnydd o'n busnesau lleol, a rhaid i bobl o'r ardal sydd wedi etifeddu tai adael eu cynefin gan na allant fforddio cadw'r tai hynny.

Holwyd pa wybodaeth sydd ar gael am broffil y tai hynny sydd wedi newid o fod yn dai haf i fod yn dai preswyl parhaol, ac a oedd bwriad i geisio gweld ai brodorion sydd wedi prynu'r tai. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd y wybodaeth honno ar gael ar hyn o bryd. Roedd gwybodaeth ynglŷn â'r tueddiadau mewn gwahanol ardaloedd ar gael, a'r cam nesaf fyddai gwneud y math hwn o ymchwil.

Nodwyd bod pobl yn llwyddo i gael caniatâd cynllunio i chwalu tai ac adeiladu tai enfawr yn eu lle mewn llefydd fel Abersoch, ond na allai pobl ifanc lleol gael caniatâd cynllunio i drosi adeiladau fferm yn gartref. Mewn ymateb, nodwyd bod hyn yn fater cynllunio, ond y derbynnid y sylw.

Nodwyd y bydd y lleihad mewn twristiaeth yn sgil codi Premiwm ar ail gartrefi yn golygu bod rhaid i bobl ifanc fynd dros y ffin i chwilio am waith, a heb waith yn yr ardal, a hefyd gyda siopau, bwytai, tafarnau a banciau yn cau, ychydig iawn fydd ar ôl yma i'r brodorion.

Ategwyd y sylw, a nodwyd yn ogystal y bydd dyfodiad y dreth dwristiaeth ac Erthygl 4, ayb, yn gwaethygu'r sefyllfa.

Cyfeiriwyd at lwyddiant Menter y Twr, Pwllheli yn codi arian i brynu hen westy'r Twr ar gyfer ei ddatblygu fel gofod cymunedol, a nodwyd bod hyn yn ymateb i'r problemau sy'n destun y drafodaeth hon. Cefnogwyd yr argymhelliad i ymlynu at Bremiwm o 150% ar ail gartrefi a nodwyd ei bod yn hollbwysig bod y Cyngor yn gweithredu ar ddata mewn sefyllfa fel hyn. Anogwyd pawb i beidio newid y sefyllfa hyd oni fyddwn yn gwybod beth sydd orau i'w wneud er mwyn cymunedau Gwynedd.

Nodwyd bod yna fwy i Wynedd na thwristiaeth a bod arian y Premiwm yn cael ei ddefnyddio i gartrefu pobl leol yn eu cymunedau. Cyfeiriwyd at baragraff 4.4 o'r adroddiad sy'n nodi fod cyfanswm o 3,214 eiddo yng Ngwynedd wedi trosglwyddo o'r rhestr Treth Cyngor i'r rhestr Ardrethi Annomestig hyd at ddiwedd Hydref 2023, a holwyd a oedd gan y Cyngor yr adnoddau i wirio bod yr eiddo hynny yn cael eu gosod am 182 diwrnod y flwyddyn. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Mai eleni roedd y gofyn 182 diwrnod yn dod i rym.
- O ran plismona hyn, Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr sy'n dod i gasgliad os yw eiddo'n destun Treth Gyngor neu Ardreth Annomestig.
- Bod y Cyngor wedi cyfeirio rhai achosion at yr Asiantaeth ar y sail nad oedd yr asesiadau wedi bod yn ddigon trylwyr, ond roedd yr Asiantaeth wedi ymlynu at eu penderfyniad gwreiddiol.
- Bod tystiolaethu i hanner blwyddyn o osod eiddo yn dipyn o ofyn ac efallai ei bod braidd yn gynnar i weld y canlyniad llawn, er ei bod yn dechrau ymddangos fel bod pethau'n newid.
- Bod tystiolaeth anecdotaidd ar gael o bobl yn prynu 3 tŷ adeg y pandemig, un i fyw ynddo a 2 i'w gosod fel llety gwyliau, a bosib' y byddai'r tai hyn yn dod yn ôl ar y farchnad wrth i'r trothwyon newid.

Holwyd pryd fyddai'r Cyngor yn cael asesiad ieithyddol o effeithiau cynyddu'r Premiwm Treth Cyngor. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yna ddata cychwynnol yn yr adroddiad yn nodi niferoedd a thueddiadau gwahanol i'r hyn sydd wedi bod yn y gorffennol.
- Gan nad oedd y dreth newydd wedi dod i rym tan fis Ebrill eleni, nid oedd amser digonol na digon o drosglwyddiadau wedi bod i allu gwneud dim ymchwil pellach na hynny, ond diau y byddai yna fwy o ddata ar gael i adeiladu ar hyn dros y flwyddyn nesaf.

Nodwyd bod yna bobl sy'n ddigartref yn ein sir a bod rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod pob person yng Ngwynedd yn cael cartref. Gorau oll felly os nad ydi ail gartrefi yn ail gartrefi mwyach a'u bod yn dod yn ôl i'r gymuned i bobl allu byw ynddynt.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn gwneud dim newid i'r Premiwm Treth Cyngor ar gyfer 2024/25. Hynny yw, ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25:-**

- **Bod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;**
- **Bod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**
- **Bod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn**

**wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**

**9. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2024-25**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas, adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gadarnhau parhad y Cynllun Lleol cyfredol ar gyfer darparu cymorth tuag at dalu'r Dreth Gyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill, 2024.

**PENDERFYNWYD**

1. **Bod Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2024 yn parhau fel ag yr oedd yn ystod 2023/24. Felly, bydd yr amodau canlynol (a – c isod) ynghylch yr elfennau disgresiwn yn parhau:**
   a) **Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.**
   b) **Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.**
   c) **Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**
2. **Lle'n briodol, dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, i wneud mân addasiadau i'r cynllun am 2024/25, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.**

**10. STRATEGAETH IAITH GWYNEDD 2023-2033**

Cyflwynwyd – adroddiad Arweinydd y Cyngor yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu Strategaeth Iaith ar gyfer 2023-2033 gan fod cyfnod y Strategaeth Iaith bresennol (Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd) yn dod i ben.

Yn ei gyflwyniad, cyfeiriodd yr Arweinydd at rai llwyddiannau sydd wedi deillio o'r strategaeth flaenorol gan nodi y credai y dylai'r Gymraeg hedfan yn uchel yng Ngwynedd. Nododd hefyd ei fod yn gwrthod y negyddiaeth a glywir yn aml am y Gymraeg yng Ngwynedd ac y bydd hynny yn arwain at ddifodiant yr iaith. Nododd bod rhaid wynebu'r her sydd o'n blaenau yn hyderus ac yn gynhwysol gan gryfhau'r Gymraeg, hyrwyddo ei defnydd ac ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni yng Ngwynedd o leiaf yn sefyll yn gadarn o safbwynt dyfodol yr iaith.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

Mynegwyd pryder mai ond 159 o bobl, a 3 o bobl yn unig dan 34 oed, oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y cytunid â'r sylw a bod hyn yn rhywbeth i roi sylw pellach iddo.
- Y cynhaliwyd grwpiau ffocws yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ayb, a bod y Gwasanaeth yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid.
- Bod bwriad i wella'r dechnoleg a bod hynny'n rhan o'r ymateb hefyd er mwyn cael barn pobl ifanc.

Nodwyd bod yr adroddiad yn cynnwys llawer o rethreg, ond mai hawdd oedd canmol rhywbeth heb fynd at y glo man. O ran hynny, nodwyd:-

- Bod 34% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi nodi nad oeddent yn gwybod a fyddai'r cynllun yn ei gyfanrwydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yng

Ngwynedd. Roedd hynny ynddo'i hun yn ddamniol, ac roedd y nifer oedd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad yn ddamniol hefyd.

- Bod yna lawer iawn o ddyheu pethau na ellir, o bosib', eu mesur yn yr adroddiad. Er enghraifft, roedd y golofn Mesur Llwyddiant yn y tabl Camau Gweithredu Hydref 2023 i Hydref 2024 yn cynnwys llawer o fylchau.
- Bod Gwynedd yn crebachu ar y ddarpariaeth trochi gyda nifer y dyddiau mae plant yn cael eu trochi bob wythnos mewn canolfan iaith wedi cwtogi o 5 i 4 a nifer yr athrawon arbenigol sy'n dysgu mewn canolfannau trochi wedi haneru o 2 i 1 athro ymhob canolfan.
- Bod Gwynedd ofn dynodi ysgolion yn rhai penodedig Cymraeg a'i bod yn bosib', mewn theori, i 40% o blant y sir osgoi addysg cyfrwng Cymraeg gan fod y diffiniad categori rydym yn bodloni arno yn caniatáu hynny.
- Bod Gwynedd, yn wahanol i siroedd eraill fel Môn, Dinbych a Phowys, wedi ymwrthod ag ariannu cynllun pontio sy'n rhoi amlygrwydd i'r Gymraeg yn y cylchoedd meithrin.
- Bod y strategaeth yn ddiddannedd o ran mesuryddion cadarn ac na cheir unrhyw gyfeiriad at beth fyddai'n digwydd pe na fyddai'r targedau hynny yn cael eu cyflawni.
- Y gwelwyd gostyngiad rhwng 2016 a 2022 yn nifer y disgyblion sy'n astudio 5 neu fwy o bynciau TGAU drwy'r Gymraeg, ac nid oedd yna unrhyw weithredu yn dilyn o hynny.
- Yn hytrach na cheisio hybu'r Gymraeg yn unig, dylai'r Gymraeg fod yn anhepgor yng Ngwynedd, ac os ydi rhywun yn dewis Gwynedd, eu bod yn dewis y Gymraeg, ac os ydynt yn dewis ysgol yng Ngwynedd, eu bod yn dewis y Gymraeg yn ddiamwys.
- Bod Gwynedd wedi arloesi yn y gorffennol, ond bellach yn llusgo ac mewn peryg' o ddyheu yn wag lle mae yna ddirywio wedi digwydd, ac oni fydd yna weithredu o ddifri' yn sgil canfyddiadau'r Cyfrifiad, byddwn yn gwneud cam mawr â'r Gymraeg.
- Er ei bod yn debyg ein bod yn gwneud yn well nag unrhyw sir arall yng Nghymru, byddem yn gwneud cam mawr â'n sir ein hunain pe na fyddem yn rhagori dros bawb arall.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd yr Arweinydd:-

- Ei fod yn anghytuno'n llwyr â'r sylwadau hyn a'u bod yn enghraifft glasurol o'r negyddiaeth y cyfeiriodd ato yn ystod ei gyflwyniad.
- Bod sylwadau'r aelod ynglŷn â'r ddarpariaeth Gymraeg yn ysgolion y sir yn anwireddus a bod ein holl blant yn cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ategwyd rhai o sylwadau'r siaradwr blaenorol ynglŷn â glo mân yr adroddiad, a nodwyd yn ychwanegol:-

- Ei bod yn hollbwysig bod y Strategaeth yn llwyddo, ond na ellid rhannu llawenydd yr Arweinydd ynddi.
- Bod yr amcanion yn y tabl Camau Gweithredu Hydref 2023 i Hydref 2024 yn rhai anrhydeddus a'r blaenoriaethau yn rhai pwysig o safbwynt dyfodol y Gymraeg yng Ngwynedd, ond bod yna brinder camau gweithredu clir a phendant yma. Er enghraifft, nid oedd y camau gweithredu yng nghyswllt yr amcan i gynyddu nifer y disgyblion ysgol sydd yn dilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg (TGAU/Lefel A) yn cynnwys fawr ddim mwy na chodi ymwybyddiaeth, ac nid oedd unrhyw beth wedi'i gynnwys dan y golofn Mesur, na tharged clir wedi'i osod erbyn Hydref 2024.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd yr Arweinydd nad oedd yn rhannu pryderon yr aelod yn sylwedd y ddogfen, ond y byddai'r swyddogion yn edrych arni eto, ac yn ceisio rhoi mwy o gig ar yr asgwrn.

Nododd aelod arall nad oedd hithau'n rhannu optimistiaeth yr Arweinydd ynglŷn â'r Strategaeth gan nodi:-

- Bod rhaid cydnabod bod y Strategaeth Iaith flaenorol wedi methu, a bod gan Wynedd lai o siaradwyr Cymraeg wrth i bobl golli'r hyder i ddefnyddio'r iaith a chyfleoedd i'w defnyddio erydu.
- Nad oedd y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys unrhyw beth a'i bod yn torri ei chalon o weld cyn lleied o weledigaeth gan Wynedd o bob man.
- Nad oedd gan y Strategaeth unrhyw beth i'w gynnig, ac eithrio mwy o'r un peth sydd ddim wedi dwyn ffrwyth.
- Bod y Strategaeth yn llawn o eiriau megis 'ceisio', 'gobeithio', 'ystyried' ayb, ac nad oedd yma unrhyw benderfyniad i weithredu yn gadarn.
- Bod y Strategaeth yn nodi bod y Cyngor yn blaenoriaethu'r Gymraeg drwy ei holl gynlluniau, ond nad oedd hynny i'w weld yn ein system addysg bresennol gan nad oes gennym ysgolion categori 3P fel y norm. Nid oedd i'w weld chwaith yn ein polisïau tai gan y dywedir wrthym nad yw'n bosib' gosod amod iaith ar bob tŷ cymdeithasol na gwerthu tai i bobl leol yn unig ar y farchnad agored, a holwyd ble mae'r ewyllys i weithredu er lles y Gymraeg drwy'r Cyngor i gyd?
- Nad oedd ysgolion meithrin, oedd wedi gorfod cau yng Ngwynedd oherwydd effeithiau demograffeg a Cofid, yn ail-agor, ac er bod gan y Llywodraeth bolisi i agor 60 o grwpiau meithrin cyfrwng Cymraeg ychwanegol erbyn 2026, nid oedd Gwynedd yn gwneud mwy na 'gobeithio' y byddai rhai ohonynt yn y sir hon.
- Bod plant Trefor yn gorfod teithio 5 milltir i gyrraedd cylch meithrin a dymunid i'r Strategaeth fapio'r ddarpariaeth meithrin a mynd i'r afael â'r diffygion hyn gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio.
- Bod darpariaeth gofal plant yn cael ei dynodi bron yn ddi-eithriad yn ddwyieithog ac roedd hynny'n nacáu'r Strategaeth i fwydo'r Gymraeg yn yr oed cynnar, ac ymhlith rhieni.
- Bod cymunedau'n newid, ond nid oes sôn yn y Strategaeth am yr hyn sydd angen sylw yn y maes gweithredu cymuned, ac ydi hynny'n golygu ein bod wedi rhoi'r gorau i chwilio am atebion newydd?
- Ble mae'r weledigaeth i greu parthau Cymreig, i fod yn fwy cadarnhaol ac i gydnabod bod dwyieithrwydd yn niweidiol i hyder siaradwyr brodorol, a hefyd i ddysgwyr, sy'n dymuno cael cyfleoedd i siarad Cymraeg ac i fod yn rhan o'r gymuned?
- Y dylai'r Strategaeth annog unieithrwydd yng Ngwynedd unwaith yn rhagor, ac yn ei ffurf bresennol mae'n wan, yn aneffeithiol ac yn ymarfer sgwennu'n unig.

Nododd yr Arweinydd ei fod yn anghytuno â bron bob un o'r sylwadau hyn, gan nodi:-

- Y derbynnid bod yna fylchau sylweddol yn y sir o ran y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a bod yna edrych ar hynny.
- Ei fod yn gwrthod yn llwyr unrhyw syniad o greu parthau Cymraeg gan y byddai hynny'n ffurf o apartheid ieithyddol.

Holwyd a oedd yr Arweinydd yn gwybod bod ysgolion yng nghadarnleoedd yr iaith Fasgaidd yn gyfystyr ag ysgolion categori 3P yng Nghymru ac a fyddai'n mynnu bod hynny'n digwydd yng Ngwynedd. Mewn ymateb nododd yr Arweinydd na fyddai'n mynnu hynny, gan nodi:-

- Mai'r gwahaniaeth rhwng ysgolion 3P yw eu bod yn ddewisol yn y siroedd eraill i gyd, a dyna pam ei fod yn fethiant yn y siroedd eraill.
- Er y gwelwyd cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg mewn siroedd megis Rhondda Cynon Taf, nid oedd chwarter y plant yn mynychu ysgolion Cymraeg nac yn cael fawr o Gymraeg yn yr ysgolion eraill, ac roedd rhaid cyflwyno'r Gymraeg yn yr

ysgolion eraill fel bod pob plentyn yn cael addysg sy'n eu gwneud yn ddwyieithog, ac yn wir yn dairieithog ac yn amlieithog.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â phwysigrwydd sicrhau bod pobl ifanc Gwynedd yn hyddysg yn y Saesneg, yn ogystal â'r Gymraeg, er mwyn gallu sicrhau cyfleoedd gwaith dros y ffin, nododd yr Arweinydd mai pwrpas system addysg Gwynedd yw dysgu plant i fod yn hollol ddwyieithog, ac nad oedd yna unrhyw arwydd o ddiffyg yng ngallu'r plant i siarad Saesneg.

Holwyd a oedd yna ffynhonnell arian y gellid ei defnyddio i edrych ar atgyfodi clybiau ieuenctid y sir ac i gynorthwyo'r clybiau ffermwyr ifanc, gan fod eu dylanwad ar y defnydd o'r iaith Gymraeg yn amhrisiadwy. Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd nad oedd arian ar gael yn anffodus gan fod Gwynedd, fel pob cyngor arall, yn wynebu'r sefyllfa gyllidol waethaf sydd wedi bod.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Strategaeth Iaith 2023-2033.**

**11. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 – DEWIS AR FABWYSIADU SYSTEM PLEIDLAIS SENGL DROSGLWYDDADWY AR GYFER ETHOLIADAU CYNGOR GWYNEDD**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol yn gofyn i'r Cyngor ystyried a ddylid cychwyn proses all arwain at fabwysiadu sustem Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy (PSD) ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd.

Rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro esboniad manwl o rai agweddau o'r ddeddf a'r broses.

Cynigiodd yr Aelod Cabinet na ddylid cychwyn proses all arwain at fabwysiadu sustem PSD ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.

Er i ambell aelod fynegi peth pryder ynglŷn â maint y wardiau o dan y sustem PSD, gwrthwynebwyd y cynnig gan sawl aelod arall ar y sail:-

- Bod angen i'r broses fynd rhagddi er mwyn i'r Cyngor fedru gwneud penderfyniad ystyrlon ar y ffordd ymlaen.
- Bod sustem PSD yn rhagori ar y drefn etholiadol bresennol gan ei bod yn drefn fwy cyfrannol, teg a rhesymegol sy'n rhoi mwy o ystyriaeth i bleidleisiau pobl, yn golygu llai o bleidleisiau wedi'u gwastraffu ac yn hawdd i'r sawl sy'n pleidleisio ei defnyddio.
- Yn wahanol i'r mwyafrif o sustemau cyfrannol eraill, bod sustem PSD yn cadw cysylltiad clos rhwng aelodau etholedig a'u wardiau ac yn rhoi mwy o'r grym i ddewis cynrychiolwyr etholedig yn nwylo etholwyr, a llai yn nwylo'r pleidiau gwleidyddol.
- Mai un o brif wendidau'r drefn bresennol yw bod modd i aelodau gael eu dewis yn gynghorwyr yn ddi-wrthwynebiad, ac roedd y system PSD yn dileu hynny.
- Na fyddai cynnal ymgynghoriad yn mynd â'r Cyngor ar hyd llwybr di-droi'n-ôl, ond yn hytrach yn cynnig cyfle i edrych ar yr holl fater a chael barn etholwyr arno.
- Bod angen chwyldro yn y sustem os am rymuso ein hetholwyr, cynyddu diddordeb pobl mewn democratiaeth, ymgysylltu'n well gyda'n hetholwyr a chael trefn fwy teg, a dyna'n union roedd PSD yn ei gynnig.

Cyflwynodd yr Arweinydd sylwadau cloi ar ran yr Aelod Cabinet oedd wedi gorfod gadael y cyfarfod yn gynnar. Nododd, er ei fod yn cefnogi'r egwyddor o gael sustem bleidleisio newydd ar gyfer pob etholiad, bod penderfyniad Llywodraeth Lafur Cymru i beidio gorfodi'r

drefn ar bob cyngor yng Nghymru, gan y byddai hynny'n gwanio sefyllfa'r Blaid Lafur, yn annheg. Ar sail hynny, nid oedd yn gefnogol i symud ymlaen ar y mater ar hyn o bryd.

Pleidleisiodd yr aelodau ar y cynnig i beidio cychwyn proses all arwain at fabwysiadu sustem PSD ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd. Disgynnodd y cynnig.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y Cyngor yn cychwyn proses all arwain at fabwysiadu sustem PSD ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd. Nododd y cynigydd ymhellach:-

- Y byddai mabwysiadu'r cynnig hwn yn gam cadarn a hanesyddol tuag at fod yn fwy democrataidd.
- Bod sustem PSD yn cael gwared â'r syniad nad oes pwynt bwrw pleidlais dros blaid benodol ac mae pob pleidlais yn cyfri'.
- Bod y sustem yn cynyddu'r nifer o bobl sy'n cael y cyfle i leisio barn o ddifri' a thrwy hynny'n cryfhau democratiaeth.
- Nad oedd gan Lywodraeth Cymru'r asgwrn cefn i ddweud mai dyma fyddai'r drefn yng Nghymru ac roeddent yn ofni y byddai pobl Cymru yn deffro ac yn dewis trefn amgen.

Nododd aelod arall fod y sustem cyntaf i'r felin wedi gwneud y ddwy brif blaid yn y DU yn drahaus, a bod cyfle yma i newid hynny. Dylid edrych i mewn i hyn ymhellach gan fod y sustem wleidyddol bresennol wedi torri a phobl ddim yn trafferthu troi allan i bleidleisio.

Pleidleisiwyd ar y cynnig ac fe gariodd.

Gan i'r cynnig gael ei gario, eglurodd y Swyddog Monitro mai'r bwriad felly fyddai cyflwyno adroddiad i gyfarfod Mawrth o'r Cyngor yn amlinellu proses ymgynghori ar gyfer symud y mater yn ei flaen i ystyriaeth neu benderfyniad gan y Cyngor trwy Gyngor Arbennig maes o law.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn cychwyn proses all arwain at fabwysiadu sustem Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd.**

## 12. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL STRATEGOL DIOGELU 2022-23

Gan ei bod wedi mynd yn hwyr yn y pnawn i ganiatáu trafodaeth ystyrlon, gohiriwyd yr eitem hon.

## 13. RHYBUDDION O GYNNIG

### (A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD JOHN PUGHE ROBERTS

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd John Pughe Roberts o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

*O ystyried ardrawiad canfod tiwbercwlosis ar fferm a phwysigrwydd rheoli'r haint, fod y Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau fod anifeiliaid gwyllt, all fod yn trosglwyddo'r haint yng nghefn gwlad yng nghyffiniau fferm sydd wedi ei heffeithio, yn cael eu profi fel mater o drefn i ddarganfod os ydynt yn cario tiwbercwlosis a chaniatáu mesurau rheoli.*

Mynegodd aelod ei gefnogaeth i'r cynnig ar y sail ei fod yn gam tuag at dynnu ychydig o'r baich oddi ar ffermwyr sy'n dioddef o iselder a phroblemau iechyd meddwl.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**O ystyried ardrawiad canfod tiwbercwlosis ar fferm a phwysigrwydd rheoli'r haint, fod y Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau fod anifeiliaid gwyllt, all fod yn trosglwyddo'r haint yng nghefn gwlad yng nghyffiniau fferm sydd wedi ei heffeithio, yn cael eu profi fel mater o drefn i ddarganfod os ydynt yn cario tiwbercwlosis a chaniatáu mesurau rheoli.**

**(B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD ELIN HYWEL**

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Elin Hywel o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

1. *Bod y Cyngor yn cydnabod ein cyfrifoldeb i warchod lles a chydlyniad cymunedol Gwynedd. Ein bod am weld cymunedau a thrigolion Gwynedd yn cyd-fyw mewn heddwch, drwy barch a chefnogaeth i'w gilydd. Gwelwn fod digwyddiadau diweddar yn Palestina ac yn Israel yn effeithio yn negyddol ar ein gallu i fod yn llwyddiannus yn cyflawni'r cyfrifoldeb yma. Gwelwn fod effeithiau torcalonnus a thrychinebus i ryfeloedd yma yng Ngwynedd. Rydym yn estyn allan i drigolion Gwynedd ar yr adeg hon. Rydym yn cydymdeimlo ac yn cydalaru.*
2. *Noda'r Cyngor ein cyfrifoldeb yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i chwarae ein rhan i sicrhau fod Cymru'n groesawgar, yn ddiogel ac yn deg i bawb.*
3. *Fel cynrychiolwyr trigolion Gwynedd, galwn am ymateb heddychlon gan Lywodraeth Cymru. Galwn ar Lywodraeth Cymru, fel ein cynrychiolwyr ar y llwyfan rhyngwladol, i hwyluso sefydlu a gweithredu cynllun cymorth dyngarol ar unwaith i bobl Gaza.*
4. *Bod y cynnig hwn yn datgan na ellir cyfiawnhau trais a gweithredoedd rhyfelgar yn erbyn sifiliaid. Bod hyn yn cynnwys gweithredoedd treisgar Hamas a'u gwrthodiad i ryddhau eu gwystlon ar unwaith, ynghyd â gweithredoedd anghymesur Israel yn erbyn pobl Palestina, sydd yn dorcyfraith rhyngwladol.*
5. *Ein bod ni, Cyngor Gwynedd, yn galw am gadoediad parhaol a di-droi'n ôl yn Gaza. Galwn ar Lywodraeth Cymru, y DU a'r gymuned ryngwladol i sicrhau dychwelyd at y bwrdd trafod, a datrysiad teg a chyfiawn i holl drigolion Palestina ac Israel, nifer sydd wedi ymgartrefu, sydd â theulu ac anwyliaid yma yng Ngwynedd.*

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w chynnig, gan nodi:-

- Bod y BBC yn adrodd heddiw bod mwy na 16,200 o bobl, gan gynnwys tua 7,000 o blant, wedi marw yn Llain Gaza ers 7 Hydref, gyda miloedd mwy ar goll o dan y rwbel.
- Y gobeithiai y byddai ei chyd-aelodau'n cefnogi ei chynnig i alw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau rhaglen ddwys o gefnogaeth ddyngarol ar gyfer pobl Gaza, yn yr un modd ag y dewisodd y Cyngor yn gywir i ymateb i angen dirfawr yn y gorffennol.
- Bod gan Gyngor Gwynedd gyfrifoldeb i ymateb i ddigwyddiadau sy'n effeithio ar drigolion Gwynedd, a chyfrifoldeb hefyd ar lefel byd-eang fel corff cyhoeddus Cymreig sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Bod trigolion yng Ngwynedd wedi'u heffeithio'n ddirfawr gan y rhyfel yn Gaza a bod rhaid i ni ddatgan ein safbwynt fel Cyngor er mwyn hwyluso diwylliant iach, parchus a heddychlon a chefnogi datblygiad llesiant ein cymunedau.
- Gyda diffyg llwyr mewn arweiniad gan Lywodraethau Cymru a San Steffan, bod rhaid i ni fel Cynghorwyr Gwynedd gamu i mewn a llenwi'r gwagle, er mwyn ein trigolion ac er mwyn heddwch.

Mynegwyd cefnogaeth gref i'r cynnig gan nifer o aelodau ar y sail:-

- Bod y sefyllfa'n effeithio ar les pobl Gwynedd ac na chredid bod yna unrhyw berson sydd heb ei gyffwrdd gan y lluniau dychrynllyd sy'n ymddangos ar y teledu yn ddyddiol.

- Bod gan rai o drigolion Gwynedd gysylltiadau personol yn Gaza, ac eraill yn ofnus am beth allai ddigwydd, a bod gennym ddyletswydd o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb i hyrwyddo cydlyniad cymunedol.
- Er na welwyd cynnydd mewn troseddau gwrth-semitig ac islamaffobig yma yng Ngwynedd, y deellid bod o leiaf un digwyddiad a drefnwyd i godi pontydd rhwng pobl o wahanol ffydd wedi'i ganslo.

Gofynnodd y Cynghorydd Richard Glyn Roberts am gofnodi ei bleidlais yn erbyn y cynnig gan na allai gefnogi cynnig sy'n galw am amodi hawl gwladwriaeth Israel i amddiffyn ei hun gan fod hynny'n chwarae i ddwylo tueddiadau gwrth-semitig, sydd ar gynnydd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

1. **Bod y Cyngor yn cydnabod ein cyfrifoldeb i warchod lles a chydlyniad cymunedol Gwynedd. Ein bod am weld cymunedau a thrigolion Gwynedd yn cyd-fyw mewn heddwch, drwy barch a chefnogaeth i'w gilydd. Gwelwn fod digwyddiadau diweddar yn Palestina ac yn Israel yn effeithio yn negyddol ar ein gallu i fod yn llwyddiannus yn cyflawni'r cyfrifoldeb yma. Gwelwn fod effeithiau torcalonnus a thrychinebus i ryfeloedd yma yng Ngwynedd. Rydym yn estyn allan i drigolion Gwynedd ar yr adeg hon. Rydym yn cydymdeimlo ac yn cydalaru.**
2. **Noda'r Cyngor ein cyfrifoldeb yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i chwarae ein rhan i sicrhau fod Cymru'n groesawgar, yn ddiogel ac yn deg i bawb.**
3. **Fel cynrychiolwyr trigolion Gwynedd, galwn am ymateb heddychlon gan Lywodraeth Cymru. Galwn ar Lywodraeth Cymru, fel ein cynrychiolwyr ar y llwyfan rhyngwladol, i hwyluso sefydlu a gweithredu cynllun cymorth dyngarol ar unwaith i bobl Gaza.**
4. **Bod y cynnig hwn yn datgan na ellir cyfiawnhau trais a gweithredoedd rhyfelgar yn erbyn sifiliaid. Bod hyn yn cynnwys gweithredoedd treisgar Hamas a'u gwrthodiad i ryddhau eu gwystlon ar unwaith, ynghyd â gweithredoedd anghymesur Israel yn erbyn pobl Palestina, sydd yn dorcyfraith rhyngwladol.**
5. **Ein bod ni, Cyngor Gwynedd, yn galw am gadoediad parhaol a di-droi'n ôl yn Gaza. Galwn ar Lywodraeth Cymru, y DU a'r gymuned ryngwladol i sicrhau dychwelyd at y bwrdd trafod, a datrysiad teg a chyfiawn i holl drigolion Palestina ac Israel, nifer sydd wedi ymgartrefu, sydd â theulu ac anwyliaid yma yng Ngwynedd.**

## 14. YMATEBION / DIWEDDARIADAU I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL

Cyflwynwyd er gwybodaeth –

(a) Diweddariad i rybudd o gynnig y Cynghorydd Rhys Tudur i gyfarfod 4 Mai, 2023 o'r Cyngor ynglŷn â'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion uwchradd.
(b) Llythyr oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn i gyfarfod 6 Gorffennaf, 2023 o'r Cyngor ynglŷn â datganoli'r grymoedd dros gyfiawnder a chreu Awdurdodaeth Gyfreithiol i Gymru.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30yp a daeth i ben am 6.10yp.

**CADEIRYDD**